



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Mehefin 2016 am 6.30yh
yn yr Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 June 2016 at 6.30pm
at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors Clive Davies (**yn y gadair/in the chair**),

John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Graham Evans, Melfydd George, Gwynfi Jenkins,
Richard Jones, Catrin Miles, Jane Roche.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol. The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Clive Davies, bawb i'w gyfarfod cyntaf a diolchodd am y fraint o gael gwneud hynny. Cyfeiriodd at y newyddion bod stordy B&Q wedi cau yn Aberteifi a mynegodd ei obeithion y byddai cwmni arall yn cymryd y safle mewn da bryd. Diolchodd i'r cyn-Faer a'r cyn-Faeres, y Cyng. John a Mrs Morina Adams-Lewis am eu haelioni drwy gyfrannu £1,000 i gronfa'r Pwll Nofio yn Aberteifi, £257 tuag at Gronfa'r Maer oedd at les elusen Cymdeithas Alzheimer gan wneud cyfanswm o £2,000, a hefyd £1,114 at brynu dwy fainc newydd sydd bellach wedi eu lleoli ar Rodfa'r Felin a Ffordd Aberystwyth. Diolchwyd i'r ddau hefyd am eu gwasanaeth caboledig i'r dref a'r gymuned leol dros y flwyddyn faerol 2015-16. Gofynnodd y Cyng. Catrin Miles i'r cyngor anfon gair o gydymdeimlad at y cyn-Gynghorydd Alan Wilson yn dilyn marwolaeth ddisymwth ei briod, Frieda, yn ddiweddar.

The Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed everyone to his first meeting, and expressed his gratitude for the privilege of serving the town in this capacity. He referred to the final closure of the B&Q store and hoped that the premises would soon be occupied by a similar business. Cllr Davies thanked the past Mayor and past Mayoress, Cllr John and Mrs Morina Adams-Lewis, for their generosity in donating £1,000 to the much needed funds of Cardigan Swimming Pool, £257 towards the final donation of £2,000 to his Mayor's fund, which benefited the Alzheimer's Society, and the purchase of two benches at a cost of £1,114 – which have been placed on the new link road verge at Rhodfa'r Felin and on the Aberystwyth Road verge. They were both thanked for their unstinting service to the town and local community during their mayoral year 2015-16. Cllr Catrin Miles requested the council to forward words of condolences to past Councillor Alan Wilson following the sudden death of his wife, Frieda, recently.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllr Ken Edwards (*dyletswyddau gwaith/work commitments*), Neal Jones (*dyletswyddau gwaith/work commitments*), Akira Shimazaki (*anhwylus/unwell*).

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis

Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.
--

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 10 Mai.

Confirmation of Minutes of 10 May Council Meeting.

Tud. 1111, eitem 1: Mae angen ychwanegu bod y Maer wedi cyflwyno llun o Gastell Aberteifi i Faer Ohtawara

Page 1111, item 1: The following addition: The Mayor presented the Mayor of Ohtawara with a picture of Cardigan Castle.

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins bod y cofnodion yn gywir.

With the above amendment, Cllr John Adams-Lewis proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Gwynfi Jenkins.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiaduron mis Mai y Maer a'r cyn-Faer i bob aelod yn y cyfarfod.

The Mayor and past Mayor's diary for the month of May was distributed to all members at the meeting.

7. Cynllunio / Planning.

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A160465	Glebelands Market Garden, St Dogmaels Road	Removal of condition 2 of planning permission A120174 (limited to 5 years from date of permission).	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

8. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
26/5/16	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor/</i> Rent of Council Office (<i>Mai/ May</i>).	A9	D/D	£250.00 (0.00)
	<i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room</i> (10/5/16 & 14/5/16)	A9	4267	£50.00 (0.00)
	<i>Band Lydan (Mehefin) / Broadband (June)</i>	A20	4267	£20.00 (0.00)
25/5/16	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd/Simultaneous translation</i> (10/5/16)	A18	4268	£98.40 (16.40)
31/5/16	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mai / May)</i>	A3	4269	£748.90 (0.00)
17/5/16	Menter Aberteifi: <i>Llogi ystafelloedd a chyfarpar (Sefydlu'r Maer).</i> Hire of rooms and equipment (Mayor Installation)	A9	4270	£50.00 (0.00)
17/5/16	David Trem: <i>Blodau / Flowers (Mayor Installation)</i>	A4	4271	£85.00 (0.00)
28/4/16	Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Gwahoddiadau/ Invitations (Mayor Installation)</i>	A4	4272	£72.00 (12.00)
	<i>Deunydd swyddfa/stationery.</i>	A7	4272	£12.00 (2.00)
	<i>Labeli i'r blethdorch / Labels for wreaths (laminated)</i>	A23	4272	£19.20 (3.20)
23/5/16	Zurich: <i>Yswiriant y cyngor / Council insurance</i> (7/6/16 – 6/6/17)	A11	4273	£4,043.94 (0.00)
31/5/16	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd/Simultaneous translation (17/5/16)</i>	A18	4274	£55.80 (0.00)
23/5/16	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council:</i> Match funding contribution for Cardigan Active Travel Area LTF 2016-17	B8	4275	£5,000.00 (0.00)
31/5/16	Streetmaster: <i>2 fainc wedi eu cyflwyno gan y cyn-Faer</i> <i>a'r gyn-Faeres, y Cyng. John a Mrs Morina Adams-</i> <i>Lewis. 2 benches donated by the past Mayor and past</i> <i>Mayoress, Cllr John and Mrs Morina Adams-Lewis</i>	B9	4276	£1,478.40 (246.40)
7/6/16	Mr John Harman, Mr Richard Harman: <i>Tâl i'r brysgyllwyr / Payment to mace bearers</i>	A6	4277	£140.00 (0.00)
			4278	£140.00 (0.00)
7/6/16	Y Cyng./Cllr Clive Davies: <i>Lwfans y Maer / Mayor's allowance (6 mis/months)</i>	A1	4279	£1,600.00 (0.00)
7/6/16	Y Cyng./Cllr Clive Davies: <i>Rhoddion y Maer / Mayor's donations</i>	D1	4280	£620.00 (0.00)
4/6/16	Emyr Rhys Williams: <i>Lluniau Sefydlu'r Maer /</i> <i>Mayor's Installation Ceremony photographs</i>	A4	4281	£10.00 (0.00)
4/6/16	David Trem: <i>Blodau / Flowers</i> <i>(Basgedi/Pot and containers)</i>	C1	4282	£334.00 (0.00)
31/5/16	<i>Bachan Deche / Handyperson (Mai/May) a choeden</i> <i>gelyn/and holly tree (Trefhedyn Garden Centre Ltd.)</i>	A19	4283	£353.40 (53.90)
7/6/16	<i>Ras yr Iaith: Rhodd / Donation (as previously agreed)</i>	D3	4284	£250.00 (0.00)

Cynigiodd y Cyng. Mark Cole bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans.

Cllr Mark Cole proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Graham Evans.

Derbyniadau/Receipts:

18/4/16	Clwb Bowlio Aberteifi / Cardigan Bowls Club (Rhent / Rent)	£400.00
7/6/16	Y Cyng. a Mrs John Adams-Lewis (2 fainc/benches: Streetmaster)	£1,114.00

Noder: Mae dogfennau archwilio cyfrifon y cyngor am y flwyddyn 2015-16 wedi eu hanfon ymlaen at Grant Thornton ar 2/6/16.

Dosbarthwyd rhestr o asedau'r cyngor a yswiriwyd gan gwmni Zurich i'r cynghorwyr gan y clerc, ac ychwanegwyd y ddwy fainc a roddwyd gan y Cyng. a Mrs John Adams-Lewis i'r rhestr o'r eitemau ni yswiriwyd.

Please Note: The financial documents for the 2015-16 year were forwarded for auditing to Grant Thornton on 2/6/16.

The clerk distributed the updated list of assets insured by Zurich and added the two benches donated by Cllr and Mrs John Adams-Lewis to the list of uninsured assets.

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) **Dywedodd y Cyng. Cole bod Cabinet y cyngor sir wedi bwriadu gwerthu safle Canolfan Meugan yn Rhos-y-dre ar y farchnad agored. Wedi i gynghorwyr wrthwynebu'r penderfyniad, awgrymwyd y dylid codi tai at yr henoed neu bersonau tan anabledd i fyw ar ben eu hun ar y safle, a chytunwyd gohirio'r penderfyniad.**

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) **Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis gyda sylwadau'r Cyng. Cole am dynged safle'r hen Ganolfan Meugan.**
- (ii) **Rhodfa'r Felin: Mae angen dybryd glirio'r chwyn sydd yn tyfu ar y ffordd osgoi sydd newydd ei mabwysiadu gan y cyngor sir.**

(c) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Ar ran ymddiriedolwyr y Pwll Nofio, diolchodd y Cyng. Miles am gyfraniad hael y cyn-Faer a'r cyn-Faeres, y Cyng. a Mrs John Adams-Lewis, tuag at goffrau'r elusen.**
- (ii) **Mae'r Cyng. Miles yn cytuno'n llwyr gyda'r ddau gynghorydd sir lleol ynglŷn â thynged safle Canolfan Meugan. Rhoddwyd pwysau ganddi ar y cyngor sir i wario elw'r gwerthiant ar anghenion lleol yn Aberteifi. Er na chafwyd ymateb cadarnhaol, bydd y Cyng. Miles yn dyfalbarhau â'r cais**
- (iii) **Chwyn ar hyd a lled y dref: Mae muriau'r Castell a mur yr Ysbyty yn frith o chwyn yn ogystal ag ymylon y ffyrdd a'r palmentydd yn y dref. Cytunwyd y dylai perchenogion y siopau gymryd cyfrifoldeb am eu safleoedd, a chwestiynwyd cyfrifoldeb Cadwgan am gyflwr cyrion y Castell hefyd. Yn yr un modd, mae cyfrifoldeb gan landlordiaid adeiladau canol dref am gyflwr y gwteri sydd yn peri anawsterau ar adegau. Yn y cyfamser, bydd y Cyng. Miles yn holi'r Awdurdod am eglurhad o'u cyfrifoldebau yn nhref Aberteifi.**

(a) Cllr Mark Cole:

- (i) **Cllr Cole stated that the county council Cabinet had decided to sell the Canolfan Meugan site at Rhos-y-dre on the open market. Following stern opposition by councillors who suggested the site could be made available to build homes for the elderly or persons with disabilities, the Cabinet postponed its decision.**

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) **Cllr Adams-Lewis agrees wholeheartedly with Cllr Cole's observations regarding the sale of the Canolfan Meugan site.**
- (ii) **The county council needs to be pressurised to clear the unsightly weeds growing on the verges of the newly-adopted link road at Rhodfa'r Felin.**

(c) Cllr Catrin Miles:

- (i) **On behalf of the trustees of Cardigan Swimming Pool, Cllr Miles thanked Cllr and Mrs John Adams-Lewis for their generous contribution to the pool's fund.**

- (ii) Cllr Miles agrees with the previous observations regarding the sale of the Canolfan Meugan site and questioned the officers of the county council regarding the redistribution of funds from the sale of local property for the benefit of other local requirements. Although the response was not positive, Cllr Miles would be reiterating this request.
- (iii) Unsightly weeds on verges, walls, etc.: The weeds seen on the Castle and Hospital walls are an unsightly spectacle for all, especially visitors arriving from the various directions into town. It was also agreed that local shopkeepers and office owners should take some responsibility for the external appearance of their premises. Similarly, Cadwgan is expected take responsibility for the Castle's environment, and also local landlords regarding the condition of guttering of their town centre buildings which is also a cause for concern. In the meantime, Cllr Miles would seek clarification from the Authority regarding the extent of its responsibility for such matters in Cardigan town.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
56	CSC/CCC (Bronwen Morgan): <i>Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion.</i> The AGM of Ceredigion County Council, 20/5/16, 2.00pm. <i>Gwahoddiad/Invitation to one representative.</i>	<i>Anfonwyd ymddiheuriad am absenoldeb y Maer.</i> An apology was submitted on behalf of the Mayor.
57	CSC/CCC (Barry Rees): <i>Penderfyniad y Cabinet – Adolygiad o'r Ddarpariaeth Ôl 16 a Seddi Gwag, Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg.</i> Cabinet Decision – Post 16 and Spare Seat Provision Home to School/College Transport Review. <i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 2/6/16.</i> E-mail forwarded to members 2/6/16	<i>Penderfyniad:</i> (a) <i>Gwrthod yr argymhelliad i gyflwyno tâl gyda chymorthdal o £390 y flwyddyn i bob myfyriwr ôl 16 i bob sefydliad addysgol.</i> (b) <i>Cymeradwyo'r argymhelliad i gyflwyno tâl o £390 y flwyddyn i bob disgybl sydd yn elwa o'r ddarpariaeth seddi gwag o 1 Medi 2017.</i> <i>Decision:</i> (a) Reject the proposal to introduce a subsidised charge of £390 per annum per pupil for all post-16 students to all educational establishments. (b) To approve the proposal to introduce a charge of £390 per annum per pupil for all benefiting from spare seats provision as from 1 September 2017.
58	CSC/CCC (Marianne de Vries): <i>Cadarnhad bod Rhodfa'r Felin wedi ei mabwysiadu.</i> Confirmation that the Bath House link road has been adopted as maintainable at the public expense under Section 30 of the Highways Act 1980 on 17 May 2016.	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 2/6/16.</i> E-mail forwarded to members 2/6/16
59	CSC/CCC (Marianne de Vries): <i>Cau'r ffordd / Road closure – (Pwllhai, 8.00-18.00, 16/6/16):</i> <i>Cysylltiad dŵr newydd/To provide new water connection. (Lôn y Moch / Chancery Lane, 20-21/6/16)</i> <i>Cysylltiad dŵr newydd/To provide new water connection.</i>	<i>E-byst wedi ei flaenyrru i aelodau 3&7/6/16.</i> E-mails forwarded to members 3&7/6/16
60	CSC/CCC (Eifion Jones) <i>Cais i drafod mabwysiadu llwybrau.</i> Application to discuss the "Adopt a path scheme".	<i>Cytunwyd gwahodd Mr Jones i gyfarfod is-bwyllgorau mis Gorffennaf neu fis Medi.</i> It was agreed to invite Mr Jones to the July or September sub-committee meeting.
61	Williams & Davies, <i>Cyfreithwyr / Solicitors:</i> <i>Diweddariad ynglŷn a phrydles Clwb Bowlio Aberteifi.</i> Update of Cardigan Bowls Club lease.	<i>Copi wedi ei anfon at y Cynghorwyr Clive Davies, John Adams-Lewis, Catrin Miles a Graham Evans.</i> Copy forwarded to the above named councillors. <i>Cytunwyd trafod yr ohebiaeth mewn pwyllgor.</i> It was agreed to discuss the correspondence in committee.
62	Coleg Ceredigion: <i>Gwahoddiad i'r Seremoni Gwobrwyo.</i> Invitation to the Award Ceremony, Guildhall, 14/6/16, 6.30pm.	<i>Cynghorwyr i ymateb dros eu hunain.</i> Members to respond personally.
63	Coleg Ceredigion: <i>Hysbyseb yn gwahodd enwebiadau am lywodraethwyr.</i> Notice inviting nominations to the board of governors.	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 13/5/16.</i> E-mail forwarded to members 13/5/16

64	Ras yr Iaith 2016: <i>Amserlen, mapiau a gwybodaeth am gau'r ffordd</i> . Timetable, maps and information regarding road closures, 7/7/16. <i>Aberteifi/Cardigan approx. 18.30-19.00 (Station Road, Castle Street, Bridge Street, High Street, Pendre, Feidrfair, Priory Street, Morgan Street, Carrier's Lane, Strand)</i>	<i>Cytunwyd bod y rhodd o £250 yn cael ei dalu. (Cofnodion: Tud. 1115, eitem 11[48], dyddiedig 10/5/16)</i> It was agreed that the donation of £250, decided upon at an earlier meeting, be paid. (Minutes: Page 1115, item 11[48], dated 10/5/16)
65	Shelter Cymru: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.</i> To be discussed at the September Grants Sub-committee.
66	Dyfed & Glamorgan Army Cadet Force: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.</i> To be discussed at the September Grants Sub-committee.
67	St John Ambulance Cardigan Division: <i>Gwahoddiad i ginio i ddathlu 120 mlynedd ers sefydlu'r gwasanaeth yn Aberteifi</i> . Invitation to a dinner to celebrate 120 years since the formation of the Cardigan Division. Cliff Hotel, 30/9/16 – <i>Tocyn/Ticket: £35.</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
68	Stadt Laufen (Yr Almaen/Germany) <i>Gwahoddiad i'r Maer fynychu digwyddiad hanesyddol.</i> Invitation to the Mayor to attend the common remembrance of political changes that occurred 200 year ago.	<i>Mae'r clerc wedi anfon llythyr o ymddiheuriad am absenoldeb y Maer ac o ddymuniadau gorau'r cyngor at ddinasyddion Laufen.</i> The clerk has forwarded a letter of apology for the Mayor's absence accompanied with the best wishes of the council to the people of Laufen.
69	Mark Williams AS / MP: <i>Dyddiadau cymorthfeydd. Surgery dates</i>	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed on notice board.
70	Miss Lowri Thomas, 28 William Street: <i>E-bost yn ailfynegi ei phryderon am y datblygiad A130764.</i> E-mail reaffirming her concerns at the A130764 development in William Street.	<i>Cytunodd y Cyng. Mark Cole gysylltu â Mr Huw Davies, Swyddog Gorfodaeth y cyngor sir, a hefyd Miss Thomas i drafod y mater.</i> Cllr Mark Cole agreed to discuss the matter with Mr Huw Davies, county council Enforcement Officer, and Miss Thomas in due course.
71	Zurich: Policy renewal (7/6/16): Insurance Premium Tax has increased from 6% to 9.5%. The "Certificate of Employers' Liability Insurance" notice has been displayed.	<i>Dosbarthwyd rhestr ddiwygiedig o asedau'r cyngor sydd wedi eu hyswiro yn y cyfarfod.</i> The revised list of Cardigan Town Council insured assets was distributed at the meeting.
72	<i>Sioe Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i'r ginio.</i> Cardigan Show: Invitation to the Mayor and Mayoress to the show day lunch, 27/7/16, 1.00pm.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
73	<i>Diogelwch yng Ngheredigion: Cyfarfod Blynnyddol, 16/6/16, 7.00-9.00yb, Y Siambr, Cyngor Sir Ceredigion.</i> Safe in Ceredigion: Community Safety Public Engagement Meeting, 16/6/16, 7.00-9.00am, Council Chamber, Penmorfa.	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 7/6/16.</i> E-mail forwarded to members 7/6/16 <i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed on notice board.
74	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Mai.</i> Handyperson's May report.	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.
75	CSC/CCC (Cathryn Morgan): <i>Cyfres o e-byst yn ymwneud ag ariannu gwelliannau i'r maes sgrialu.</i> Series of e-mails regarding funding for the skateboard park improvements.	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.
76	CSC / CCC (Bronwen Morgan): <i>Cod Ymddygiad Diwygiedig i Aelodau.</i> Revised Code of Conduct for Members. <i>Mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 21/4/16.</i> <i>Yn weithredol o 20/5/16.</i> Adopted by Council 21/4/16. Effective from 20/5/16.	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 13/5/16.</i> E-mail forwarded to members 13/5/16,

Barry Rees: *Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau / Strategic Director for Learning and Partnerships*
Bronwen Morgan: *Prif Weithredwr. Chief Executive.*
Cathryn Morgan: *Cydylydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator*
Eifion Jones: *Cynllun Mabwysiadu Llwybrau / Adopt a Path Scheme*
Marianne De Vries: *Cynorthwy-ydd Peirianeg (Cynnal a Chadw) / Engineering Assistant (Maintenance)*

11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

(a) Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 24 Mai.

Confirmation of 24 May Sub-committee Minutes.

Tud. 1118: Cytunwyd mai trwy gamddealltwriaeth y cyrhaeddodd y Cyng. Richard Jones yn hwyr i'r cyfarfod.

Tud. 1118, eitem 1 (Priffyrdd): Newid "Awgrymodd ef" i "Awgrymwyd".

Tud. 1119, eitem 1 (Priffyrdd): "Napier Street" nid "Napier Gardens".

Page 1118: Due to a misunderstanding, it was agreed that Cllr Richard Jones' attendance was incorrectly noted in the minutes.

Page 1119, item 1 (*Highways*): Change "He suggested" to "It was suggested".

Page 1119, item 1 (*Highways*): Change "Napier Gardens" to "Napier Street".

Gyda'r cywiriadau uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y cofnodion yn gywir.

With the above amendments, Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Jane Roche.

Materion yn codi *Matters arising*

Tud. 1119, eitem 1 (Priffyrdd): Dywedodd y Cyng. Cole ei fod wedi cysylltu â Mr Gari Jones o'r cyngor sir ynglŷn â chysylltu â Mr Vernon Studt i drafod y gwelliannau a awgrymwyd i'r ffordd.

Page 1119, item 1 (*Highways*): Cllr Cole stated that he had contacted Mr Gari Jones, Assistant Engineer Transport Strategy with the county council, regarding discussing the plans with Mr Vernon Studt, the owner of the Fairfield Car Park.

Maes Sgrialu: Cafwyd diwrnod llwyddiannus ar y maes sgrialu pan drefnwyd digwyddiad Hanner Tymor ar 3 Mehefin. Bu'r Cyngorwyr Clive Davies, John Adams-Lewis a Graham Evans yno i gefnogi'r gweithgaredd. Cafwyd trafodaeth gyda Ms Cathryn Morgan, Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf, ynglŷn â thrafod awgrymiadau i sefydlu grŵp newydd o "Ffrindiau'r Maes Sgrialu" gyda'r bwriad o ymgeisio am grantiau er mwyn gwelliannau i'r safle a hefyd safle chwarae'r Netpwl. Mae Ms Morgan, y Cyng. Clive Davies,

Mr Warren Dymes (Wozza) a Ms Meinir Davies, Cynorthwy-ydd Cyfrifeg (Grantiau) o'r cyngor sir, yn bwriadu cydweithio i edrych i mewn i'r holl bosibiliadau. Mae gan Mr Paul Arnold a Mr John Hadlow (Arolygydd Cynnal a Chadw Meysydd a Gerddi'r Cyngor Sir) syniadau arloesol i gyflwyno nodweddion naturiol i man chwarae Netpwl.

Skateboard Park: A successful Half Term event was held at the skateboard park on 3 June. Cllrs Clive Davies, John Adams-Lewis and Graham Evans attended the event. A productive discussion was had with Ms Cathryn Morgan (Families First Coordinator), regarding suggestions to establish a new supportive group, "Friends of the Skateboard Park", in order to apply for grants to improve the facilities and also to develop the Netpool play area. Ms Morgan, Cllr Clive Davies, Mr Warren Dymes (Wozza) and Ms Meinir Davies (County Council Grants Facilitator) will co-operate towards this end. Mr Paul Arnold and Mr John Hadlow (County Council Ground Maintenance Supervisor, Parks & Gardens) highlighted ideas to form a natural features play area at Netpool.

PACT: Dywedodd y Cyng. Miles bod dau gynghorydd sir lleol yn bresennol yn y cyfarfod. Trafodwyd yr anghenion a godwyd gan Gyngor Cymuned y Ferwig, sef y nifer o heddweision ar hyd y strydoedd pan fydd digwyddiadau pobl ifanc yn cymryd lle, ail-gyflwyno camerâu teledu cylch cyfyng, a mwy o oleuadau ar hyd y strydoedd. Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis y byddai modd trafod y pwynt olaf gyda swyddog newydd y cyngor sir sydd â chyfrifoldeb am oleuadau'r strydoedd. Disgwylir ymateb oddi wrth Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys, i wahoddiad y cyngor iddo ddod i annerch yr aelodau ac i wyntyllu'r pwyntiau uchod, yn enwedig yr awgrym i ailsefydlu camerâu TCC.

PACT: Cllr Catrin Miles stated that two local county councillors were present at the latest PACT meeting. The following points raised by Ferwig Community Council were discussed: the increase of police presence in the town centre during events when gatherings of young people are present; the reintroduction of CCTV cameras; and the addition of light columns in badly lit areas of the town centre. Cllr Adams-Lewis added that he would raise this issue with the newly appointed street light officer of the county council. A response is awaited from Dafydd Llywelyn, the Police and Crime Commissioner of Dyfed-Powys, to the invitation from the town council to address the members on the above issues, especially the suggestion to reinstate CCTV cameras.

Y Bachan Deche: Bydd ef yn plannu'r blodau yng nghanol y dref yn ystod y dyddiau nesaf. Mae'r cyngor sir wedi plannu blodau yng Ngerddi Victoria. Awgrymwyd i Gadeirydd Masnachwyr Aberteifi y dylai perchenogion y siopau osod basgedi o flodau i harddu'r strydoedd.

Handyperson: The Handyperson will plant the town centre flowers during the following days. The county council has planted the Victoria Garden flowers and intend to plant the containers this week. It has been suggested that shop owners should make an effort to decorate the exterior of their premises with flower baskets.

(b) Enwebu Aelodau'r Is-bwyllgorau a Chyrff Allanol am 2016-17.

Nomination of Sub-committee Members and External Bodies, 2016-17.

Wedi trafod y newidiadau, cadarnhawyd y rhestr o'r aelodau sydd i wasanaethu ar is-bwyllgorau'r cyngor a chyrff allanol.

After making a number of amendments, the list of members to serve on council sub-committees and external bodies was confirmed.

12. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Wedi derbyn cwynion oddi wrth breswylwyr yr ardal, mae'r Cyng. Jane Roche yn anesmwytho oherwydd y sŵn a glywid o ddiwyddiadau a gynhelir ym Mwyty Pantywylan. Cytunodd y Cyng. Catrin Miles wneud ymholiadau gydag adran drwyddedu'r cyngor sir ynglŷn â'r lefelau desibelau a ganiateir mewn digwyddiadau tebyg.**

(b) **Gofynnodd y Cyng. Melfydd George am ganllawiau ynglŷn â chyfrannu at gostau teithio ysgolion lleol i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd eleni yn Fflint. Cytunwyd bod aelodau'r cyngor sydd yn gwasanaethu ar fyrddau llywodraethol yr ysgolion yn eu cynghori i anfon llythyr o gais am gymorth ariannol at y cyngor.**

(c) **Derbyniodd y Cyng. Davies gwynion am y bolardiau sydd ar y Stryd Fawr gyda'r rhannau adlewyrchol wedi eu peintio drostynt; mae hyn ym amharu ar ddiogelwch cerddwyr rhannol-ddall ac yn beryg iddynt. Cytunodd yr aelodau lleol godi'r cwyn gydag adran briffyrdd y cyngor sir.**

(a) Having received a number of complaints from local residents, Cllr Jane Roche is concerned at the excessive noise emitted during the Pantywylan events. Cllr Catrin Miles agreed to make enquiries with the county council licensing department regarding the decibel level of noise permitted at such events.

(b) Cllr Melfydd George requested directives regarding donating funding to the local schools to assist with travelling expenses to the Urdd National Eisteddfod which this year was held in Flint. It was agreed that the council representatives on the schools' governing bodies advise the schools to forward a letter of application for funding to the council.

(c) Cllr Clive Davies raised the problem of street bollards which do not display reflectors which assist greatly the partially-sighted person. It has been reported that the county council has painted over the reflecting strips – this problem is apparent along the High Street. Local members agreed to raise the concern with the county council highways department.

Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a thrafodwyd eitem 10[61] mewn pwyllgor.

Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole.

In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed item 10[61] in committee.

The above was proposed by Cllr Catrin Miles and seconded by Cllr Mark Cole

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.10yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.10pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date